



Hosbis St Anne fel rhan o Ofal Hosbis Dewi Sant

Adolygiad gan Gymheiriaid o Ofal Diwedd Oes

Dyddiad yr Ymweliad – 21 Hydref 2014

Tîm Adolygu Gan Gymheiriaid Gofal Diwedd Oes

Enw (llythrennau bras)	Teitl Swydd	Sefydliad
Cadeirydd: Tracy Livingstone	Cyfarwyddwr Nyrsio a Gwasanaethau Cleifion	Hosbisau Nightingale House
Dr Sue Morgan	Arweinydd Clinigol, Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Liniarol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Linda Williams	Cyfarwyddwr a Chomisiynydd Sir	Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Mansel Thomas	Adolygydd Lleyg	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Cymorth Rhwyddhad: Veronica Snow, Rheolwr y Rhaglen Gofal Diwedd Oes		

Teitl Sefydliad	Hosbis St Anne	
Teitl Tîm	Hosbis St Anne	
Teitl Dyddiad Adolygu	21 Hydref 2014	
Enw (llythrennau bras)	Teitl Swydd	Sefydliad
Emma Saysell	Prif Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio	Gofal Hosbis Dewi Sant
Dr Clea Atkinson	Meddyg Ymgynghorol mewn Meddygaeth Liniarol (Cyfarwyddwr Meddygol)	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Karen Hughes	Uwch-reolwr yr Hosbis	Gofal Hosbis Dewi Sant
Vicky Williams	Rheolwr yr Hosbis	Gofal Hosbis Dewi Sant
Rachel Buttweiler	Prif Nyrs Ward	Gofal Hosbis Dewi Sant
Gill Tanner	Gweithiwr Cymdeithasol	Gofal Hosbis Dewi Sant

Hannah Williams	Ffisiotherapydd	Ysbyty St Joseph
Catherine Moon	Gweithiwr Cymdeithasol	Gofal Hosbis Dewi Sant
Dr Debbie Jenkins	Cyfarwyddwr Clinigol	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

ADRODDIAD YR ADOLYGWYR

Crynodeb o'r Adolygiad

Fel rhan o Ofal Hosbis Dewi Sant, mae gan Hosbis St Anne strwythur adrodd llywodraethu clinigol clir. Mae hyn yn cynnwys is-grŵp llywodraethu clinigol, grŵp archwilio clinigol, a grŵp rheoli meddyginiaethau. Mae polisi cwynion, gyda chynllun uwchgyfeirio clir i gynnal ymchwiliadau ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Mae trefniadau ar waith i rannu pryderon rheoli risg drwy system adrodd y bwrdd iechyd. Cynhelir cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol bob wythnos. Defnyddir System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru i gofnodi'r holl wybodaeth. Trafodir pob claf newydd yn y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wythnosol, a chytunir ar gynllun gofal. Caiff yr holl gleifion sy'n cael eu derbyn i'r hosbis rhwng 9am a 5pm ddydd Llun i ddydd Gwener eu hasesu gan y tîm meddygaeth liniarol. Gellir derbyn cleifion y tu allan i oriau drwy gytundeb gyda gwasanaeth meddygon ymgynghorol ar alwad Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan neu'r swyddog meddygol yn Ysbyty St Joseph, neu drwy aelod o dîm nyrsys clinigol arbenigol Dewi Sant. Yna, caiff y cleifion hyn eu hadolygu gan aelod o'r tîm meddygaeth liniarol. Caiff yr holl gleifion eu hadolygu bob dydd.

Nodwyd bod cyfathrebu rhwng darparwyr gofal lliniarol lleol eraill a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn dda.

Arhosodd swydd cyfarwyddwr clinigol y bwrdd iechyd yn wag am ddwy flynedd, ac felly nid oedd y cyfarwyddwr clinigol a benodwyd yn ddiweddar yn rhan o drafodaethau rhwng y bwrdd iechyd, Chwiorydd Anecy, a Gofal Hosbis Dewi Sant ynglŷn â chymryd awenau Hosbis St Anne. Mae'r cyfarwyddwr clinigol yn nodi bod perthynas dda'n datblygu rhwng Gofal Hosbis Dewi Sant, a gobeithia y bydd yn parhau i wella.

Mae arolygon cleifion yn dangos bod lefel uchel o gleifion yn fodlon ar y gwasanaeth. Mae comisiynwyr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn cwrdd yn rheolaidd ac yn nodi bod gweithio integredig da gyda Gofal Hosbis Dewi Sant. Mae prif weithredwr Gofal Hosbis Dewi Sant yn cadeirio'r grŵp strategol Gofal Diwedd Oes lleol, ac mae'r staff yn cymryd rhan mewn is-grwpiau gofal lliniarol arbenigol y bwrdd iechyd.

Adroddiad arolygu AGIC Tachwedd 2009:

Mae safon H2 'Arbenigedd gofal lliniarol a hyfforddiant ar gyfer timau aml-broffesiynol':
Bron â'i chyflawni

Safonau H9 'Archebu, storio, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau' Bron â'i chyflawni

Safon H10 'Gweinyddu meddyginiaethau' : Bron â'i chyflawni

Mae pob un o'r tair safon hyn bellach wedi'i chyflawni, ac roedd y dystiolaeth i gefnogi hyn ar gael i'r tîm adolygu gan gymheiriaid ar ffurf strategaeth addysg a dogfen asesu risg rheoli meddyginiaethau.

Roedd enghreifftiau o arferion da y gellid eu rhannu. Yn 2012, derbyniodd Gofal Hosbis Dewi Sant wobwr gan y *Sunday Times* am fod yn un o'r cyflogwyr gorau, ac maent yn bwriadu ceisio eto yn 2015 gyda gwasanaeth gofal hosbis llawn Dewi Sant.

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn mewn cyfnod o newid sylweddol, wrth i hosbisau St Anne a Dewi Sant gyfuno a datblygu i fod yn wasanaeth cynhwysfawr sy'n cynnig gofal arbenigol i gleifion preswyl, hosbis gymunedol yn y cartref, a gofal hosbis dydd ar draws yr ardal a enwyd uchod. Teimlai'r panel adolygu gan gymheiriaid y byddai'r misoedd sydd i ddod yn gyfnod pwysig, gan ddod â dau sefydliad ynghyd o dan enw Gofal Hosbis Dewi Sant. Dylid canmol pob un ohonynt am eu gwaith i integreiddio'n llwyddiannus. Byddai cyfathrebu'n barhaus, a gweithio gyda'r holl bartneriaid, yn golygu y gellid cynnig gwasanaeth diwedd oes ardderchog a chynhwysfawr yn yr ardal at y dyfodol.

Adolygiad gan Gymheiriaid, 21 Hydref 2014

Themâu Allweddol

Gan gyfeirio at ganllawiau ar Themâu Allweddol yn y canllawiau tystiolaeth, rhwch sylwadau sy'n cynnwys manylion cryfderau, meysydd i'w datblygu, ac effeithiolrwydd y tîm yn gyffredinol. Dylid nodi unrhyw feysydd penodol sy'n destun pryder neu arferion da yn yr adrannau canlynol.

Strwythur a swyddogaeth y gwasanaeth

Dylid gwneud sylwadau ynglŷn ag arweinyddiaeth, aelodaeth, presenoldeb, trefniadau cyfarfodydd, polisiau gweithredol, a llwyth gwaith. Dylai timau wneud sylwadau penodol ynglŷn â'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r holl aelodau craidd ar waith?
- A oes gan yr holl aelodau craidd allweddol gymwysterau priodol mewn gofal lliniarol?
- A oes polisi gweithredol ar waith?
- A yw'r tîm amlddisgyblaethol yn cwrdd bob wythnos ac yn cofnodi cyfarfodydd ar System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru?
- A oes protocol cyfathrebu?
- Sawl claf a atgyfeiriwyd/a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol?

Mae gan y tîm clinigol dîm meddygaeth liniarol dan arweiniad meddygon ymgynghorol sy'n cynnwys tri meddyg a gyflogir gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan, sy'n weithredol o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9am a 5pm. Mae St Anne yn comisiynu gwasanaeth cyflenwi y tu allan i oriau gan y swyddog meddygol ar alwad yn Ysbyty St Joseph y tu allan i oriau ac ar benwythnosau, a chynghor arbenigol drwy rota de-ddwyrain Cymru i feddygon ymgynghorol ar alwad ar gyfer meddygaeth liniarol.

Mae tîm rheoli nyrsio'r hosbis yn cynnwys uwch-reolwr, rheolwr yr hosbis, a phrif nyrs yr hosbis. Mae 20 o staff nyrsio cymwys, deg gweithiwr gofal iechyd, dau weithiwr cymdeithasol, therapydd galwedigaethol o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan, ac ysgrifenyddes yr hosbis. Caiff gwasanaethau ffisiotherapi eu comisiynu yn ôl yr angen gan dîm Ysbyty St Joseph. Dywedodd y ffisiotherapydd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod fod gwasanaeth cyflenwi da ar gael ar gyfer gwyliau ac ati yn y tîm ffisiotherapi o ganlyniad i gontract comisiynu Hosbis St Anne gydag Ysbyty St Joseph.

Nododd prif nyrs y ward, a benodwyd yn ddiweddar, fod angen hyfforddiant ac addysg. Mae system arfarnu newydd bellach ar waith, a chaiff yr holl staff eu cynorthwyo i gael hyfforddiant a ystyrir yn briodol i ddiwallu anghenion. Bydd yr hyfforddiant hwn yn gysylltiedig â holl hyfforddiant gofynnol y GIG. Darperir lefel ddiogel o hyfforddiant gorfodol. Mae arweinydd enwebedig o fewn strwythur adnoddau dynol Hosbis Dewi Sant ar gyfer gwiriadau cofrestriad/ail-ddilysu ac ati. Mae prif nyrs y ward yn nodi bod y staff a benodwyd yn ddiweddar wedi eu paratoi'n dda i ddiwallu anghenion cleifion yr hosbis.

At hynny, mae gan yr hosbis naw gwirfoddolwr sy'n gweithio'n ysbeidiol i gyflenwi saith diwrnod rhwng 9am hyd 9pm. Darperir cymorth caplaniaeth hefyd gan dîm o wirfoddolwyr sy'n ymweld yn ddyddiol. Mae gan yr holl aelodau craidd gymwysterau priodol, ac mae polisi gweithredol cynhwysfawr ar waith. Cynhelir cyfarfod tîm amlddisgyblaethol, a chaiff yr holl gyfarfodydd eu cofnodi ar System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru.

Mae polisi cyfathrebu clir ar waith. Gall yr holl aelodau staff gael mynediad at bolisiau a chanllawiau ar brif weinydd drwy 'Yriant a Rennir' rhwng safleoedd Hosbis Dewi Sant a Hosbis St Anne. Darperir cymorth fferylliaeth gan Ysbyty St Joseph. Caiff yr holl wirfoddolwyr eu recriwtio a'u cyflogi drwy'r un broses adnoddau dynol â staff cyflogedig.

Derbyniodd Hosbis St Anne 317 o atgyfeiriadau yn ystod 2013. Cafodd 215 o'r rhain eu derbyn i'r uned. O blith y rhain, roedd 206 ohonynt yn achosion o ganser, a naw ohonynt yn achosion heb ganser. Roedd y gyfradd meddiannu gwely yn 75%. Cydnabyddir na fydd y ffordd y mae'r hosbis eisoes wedi'i threfnu, gyda dwy ystafell ar gyfer dau berson yr un, bob amser yn briodol o ran derbyn claf i'r ail wely, a gallai hyn effeithio ar feddiannaeth. Bydd y strategaeth tymor hir ar gyfer dyfodol St Anne yn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon.

Caiff 50% o gleifion eu derbyn o ganlyniad i anghenion arbenigol cymhleth gyda dwyster uchel. Caiff cleifion eu blaenoriaethu yn ôl anghenion cyn belled ag y bo modd, ond mae'r

hosbis hefyd yn cydnabod bod seibiant yn bwysig i gefnogi cleifion a theuluoedd/gofalwyr sydd am dderbyn gofal gartref. Cydnabu'r tîm mai cleifion a oedd eisoes yn hysbys i dîm cymuned Hosbis Dewi Sant oedd fel arfer yn cael eu derbyn i Hosbis St Anne.

Cydlynu llwybrau gofal/cleifion

A oes llwybr rheoli clir ar gyfer cleifion sydd angen triniaeth gymhleth i reoli eu symptomau? E.e. Cywasgiad Metastatig Llinyn Asgwrn y Cefn

Dylid gwneud sylwadau am gydlynu gofal a llwybrau gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion.

Arweinyddiaeth glinigol a chyfathrebu

Llwybr Cleifion: Mae llwybrau rheoli clir ar gyfer cleifion sydd angen triniaeth gymhleth i reoli eu symptomau. Mae cleifion â chywasgiad metastatig llinyn asgwrn tybiedig yn derbyn sgan MRI yn Ysbyty Brenhinol Gwent, ac yna cânt eu trosglwyddo i Ganolfan Ganser Felindre am driniaeth os oes angen. Bydd cleifion yn dychwelyd i Hosbis St Anne am adsefydliad os yw'n briodol. Bydd yr hosbis yn comisiynu ambiwlans preifat os nad oes ambiwlans y GIG ar gael. Mae llwybrau gofal clir sy'n canolbwyntio ar gleifion, gan gynnwys defnyddio cyfieithwyr, sydd ar gael yng Ngofal Hosbis Dewi Sant i gynorthwyo cleifion. Mae cyfleusterau cyfieithu 'iPad' ar gael yn yr ysbyty hefyd ar gyfer anghenion o ddydd i ddydd. Mae'r hosbis yn nodi bod angen cyfieithwyr, yn enwedig ar gyfer cleifion o ddwyrain Ewrop a Tsieina.

Caiff digwyddiadau llywodraethu clinigol eu hadrodd gan ddefnyddio'r system Datix. Mae tystiolaeth dda o ddysgu a newid yn sgil digwyddiadau tyngedfennol, e.e. o ganlyniad i ddigwyddiad yn ymwneud â rhoi cyffur, mae'r aelod o'r tîm sy'n rhoi cyffuriau'n gwisgo tabard i ddangos ei fod yn gwneud rownd gyffuriau ac na ddylid amharu arno na'i alw i ffwrdd.

Wrth i hosbisau St Anne a Dewi Sant gyfuno, cydnabyddir y gellir gwella'r trefniadau cyfathrebu, oherwydd nid yw'n hawdd gweithredu ar ddau safle. Rôl yr uwch-reolwr yw cynorthwyo'r broses o integreiddio Hosbis St Anne â Hosbis Dewi Sant, ac mae'n ystyried cyfathrebu da'n rhan hanfodol o drawsnewid yn llwyddiannus.

Mae arweinyddiaeth gref yn Hosbis St Anne gan y tîm o uwch-reolwyr, o dan arweiniad prif weithredwr Gofal Hosbis Dewi Sant, sydd hefyd yn gyfarwyddwr nyrsio. Mae arweinyddiaeth gref yn y tîm meddygol a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan hefyd, gan y cyfarwyddwr clinigol a benodwyd yn ddiweddar. Wrth i Hosbis St Anne a Gofal Hosbis Dewi Sant symud ymlaen, mae angen rhagor o waith i sefydlu trefniadau gweithio integredig rhwng y timau. Mae angen i fframwaith y strwythur clinigol gydnabod elfen feddygol y gofal

yn y sefydliad.

Mae trefniadau cyfathrebu da rhwng prif weithredwr yr hosbis a thîm yr hosbis. Tra bod yr uwch-reolwr yn goruchwyllo'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r hosbis, mae gan y prif weithredwr bolisi 'drws agored', ac mae'n teimlo y dylai fod yn hygyrch i'r holl staff, yn enwedig am ei bod yn gyfarwyddwr nyrsio.

Blaenoriaethau Gofal Integredig

Mae'r hosbis yn cymryd rhan ym mhrosiect Blaenoriaethau Gofal Integredig Cymru Gyfan ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd.

Profiad y claf

Dylid gwneud sylwadau am brofiad y claf a chasglu adborth am brofiad cleifion, yn ogystal â chyfathrebu â chleifion a rhoi gwybodaeth iddynt, a mentrau cymorth eraill i gleifion. Dylai timau wneud sylwadau yn benodol am:

- Pa drefniadau sydd ar waith i helpu cleifion i gael eu rhyddhau/derbyn yn gyflym ar ddiwedd eu hoes?
- Beth yw canlyniadau'r arolwg cenedlaethol o brofiad cleifion (iWantGreatCare)?

- Oherwydd mae Hosbis Dewi Sant yn cynnwys Hosbis St Anne a gwasanaeth Hosbis yn y Cartref Hosbis Dewi Sant, mae trefniadau da iawn ar waith i gefnogi rhyddhau cyflym ac i hwyluso derbyn cleifion sydd ar ddiwedd eu hoes. Gellir darparu gwasanaeth hosbis yn y cartref yn gyflym, ac mae staff banc ar gael i gynorthwyo'r timau sydd eisoes yn bodoli.
- Ffeirir defnyddio ambiwlansys preifat pan fo angen, er mwyn helpu i ryddhau a derbyn cleifion yn gyflym.
- Mae adborth gan yr arolwg cenedlaethol o gleifion, iWantGreatCare, yn ardderchog. Mae Gofal Hosbis Dewi Sant hefyd yn cynnal eu harolygon cleifion eu hunain, ac mae'r rhain yn dangos canlyniadau tebyg.
- Mae'r holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae gwasanaeth cyfieithu ar gael i gleifion a theuluoedd nad yw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.
- Mae cyfleusterau da i ofalu am bobl sydd wedi marw, ger yr ystafell ffenestri yn yr hosbis – gellir symud cleifion sydd wedi marw i'r ystafell ffenestri os yw eu perthnasau am eu gweld ar ôl iddynt farw.
- Mae gwasanaeth profedigaeth llawn i oedolion, a gwasanaeth profedigaeth arbenigol ar gyfer plant, sef *Unicorn Project*, sy'n agored i atgyfeiriadau y tu hwnt i'r rhai sy'n hysbys i'r gwasanaeth hosbis. Caiff y ddau wasanaeth hyn eu hariannu'n llawn fel rhan o Ofal Hosbis Dewi Sant.

Gwella Gofal, Cyflawni Canlyniadau

- Yn flaenorol, roedd yr hosbis yn cael ei rhedeg ochr yn ochr ag ysbyty preifat St Joseph, ill dau'n eiddo i Chwiorydd Annecy. Mae Ysbyty St Joseph bellach wedi cael ei brynu gan gonsortiw preifat. Er bod yr amgylchedd yn yr hosbis yn addas ar hyn o bryd, ward o fewn ysbyty arall yw'r hosbis i bob pwrpas. Rywbryd yn y dyfodol, byddai angen ei diweddarau er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth. Mae dwy o'r ystafelloedd sydd ar gael yn ystafelloedd ar gyfer dau glaf; gall hyn olygu bod dau wely'n wag ar unrhyw adeg benodol oherwydd amgylchiadau unigol cleifion. Nid hon yw'r ffordd orau o gefnogi cleifion sydd ag anghenion diwedd oes a'u teuluoedd a gofalwyr yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r hosbis yn ystyried opsiynau i sicrhau y bydd yr hosbis yn gynaliadwy yn y tymor hir.
- Archwiliad: Enghraifft: Cynhaliwyd archwiliad o drallwysiadau gwaed er mwyn nodi nifer y trallwysiadau gwaed a ddarparwyd heb feddyg ar y safle. O ganlyniad i'r archwiliad, mae'r arferion wedi newid er mwyn sicrhau bod trallwysiadau'n cael eu rhoi tra bod meddyg ar ddyletswydd.
- Profion Clinigol: nid yw'r hosbis yn cymryd rhan mewn profion clinigol ar hyn o bryd, ond mae'n gobeithio gwneud yn y dyfodol.

Sylwadau'r Comisiynwyr

Mae'r bwrdd iechyd yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir, ac mae tystiolaeth o drefniadau gweithio ar y cyd sefydledig rhwng rheolwyr y bwrdd iechyd a Gofal Hosbis Dewi Sant. Nid oedd y cyfarwyddwr clinigol a benodwyd yn ddiweddar yn ei swydd pan gymerodd Hosbis Dewi Sant awenau Hosbis St Anne. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r berthynas rhwng y cyfarwyddwr clinigol a benodwyd yn ddiweddar a thîm gweithredol Gofal Hosbis Dewi Sant.

Sylwadau Tîm Hosbis St Anne

Mae'r tîm yn teimlo eu bod yn cydweithio'n dda â'r holl ddarparwyr ar lefel weithredol. Wrth i dimau Hosbis St Anne a Hosbis Dewi Sant gyfuno, ac wrth i staff newydd gael eu cyflogi, mae'r tîm yn teimlo eu bod 'yn wir yn dechrau troi'n un tîm', ac yn 'deall swyddogaethau ein gilydd yn well'. Mae tîm gweithredol yr hosbis yn nodi bod trefniadau gweithio da gyda rheolwyr y bwrdd iechyd.

Adolygiad o Nodiadau Achos

Adolygwyd chwe set o nodiadau achos ar y diwrnod.
Roedd gan yr holl nodiadau restr o asesiadau a phroblemau.
Nid oes rhif adnabod claf ar un dudalen yn un o'r setiau.
Llofnodwyd yr holl gofnodion, ond nid oedd enw mewn llythrennau bras arnynt.
Mewn rhai cofnodion roedd y llofnodion yn anodd eu darllen.

Arferion da

Nodwch unrhyw feysydd o arfer da

Gwelwyd llawer o arferion da yn Hosbis St Anne.

- Dylid canmol y defnydd a wneir o ambiwlansys preifat, y mae Gofal Hosbis Dewi Sant yn talu amdanynt, er mwyn trosglwyddo cleifion.
- Sefydlu grŵp rheoli meddyginiaethau i wella'r trefniadau ar gyfer storio a rhoi cyffuriau yn sgil digwyddiad tyngedfennol.
- Defnyddio adroddiad digwyddiad tyngedfennol i gyflwyno newidiadau.
- Y defnydd a wneir o wirfoddolwyr mewn ward, nid yn unig rhwng 9am a 5pm, ond ar benwythnosau hefyd.
- Datblygu tîm caplaniaeth gwirfoddol sy'n darparu gwasanaeth dyddiol i'r hosbis.

Meysydd i'w hystyried

- O ystyried nifer isel derbyniadau heb ganser, dylid gweithio i ddarganfod a oes gan y cleifion hyn anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu.
- Dylid cydnabod y tîm meddygol clinigol yn y strwythur sefydliadol.
- Dylid parhau i ddatblygu a chryfhau'r bartneriaeth glinigol rhwng Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a thimau clinigol Gofal Hosbis Dewi Sant.
- Dylid parhau i gyfathrebu'n dda er mwyn sicrhau bod y gwaith o uno'r ddau sefydliad hosbis yn llwyddiannus.
- Dylid datblygu'r berthynas â chyfarwyddwr clinigol y bwrdd iechyd ymhellach.
- Dylid ystyried, mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd, pa mor gynaliadwy yw'r hosbis, a sut i'w datblygu i ddiwallu anghenion ar gyfer y dyfodol.

Canfyddiadau Cyffredinol

Mae gan hosbis St Anne bolisi gweithredol clir a chryno. Cynhelir cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol bob wythnos. Defnyddir System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru i gofnodi'r holl wybodaeth. Trafodir pob claf newydd yn y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wythnosol, a chytunir ar gynllun gofal. Caiff cleifion preswyl eu hadolygu'n wythnosol yn y cyfarfod tîm amlddisgyblaethol. Dywedodd y tîm fod trefniadau cyfathrebu da rhwng darparwyr gofal lliniarol lleol eraill a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae grwpiau sefydledig ag arweinwyr enwebedig ar waith i reoli risg, i reoli meddyginiaethau, ac i archwilio. Mae arolygon cleifion yn dangos bod lefel uchel o gleifion yn fodlon ar y gwasanaeth. Mae comisiynwyr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn cwrdd yn rheolaidd ac yn nodi bod gweithio integredig da gyda Hosbis St Anne a chyfraniad at y grŵp strategol lleol.

Mae gan Hosbis St Anne brif weithredwr a chanddo gefndir ym maes nyrso clinigol, ac mae'n arwain y gwasanaeth mewn modd clir. Mae'r hosbis wedi elwa ar y lefel o lywodraethu a roddir iddi o ganlyniad i uno â Gofal Hosbis Dewi Sant.

Mae enghreifftiau o arferion da y gellid eu rhannu, e.e. yn benodol yr hyn a ddysgir yn sgil digwyddiadau tyngedfennol, a'r defnydd a wneir o ambiwlansys preifat i wella ansawdd bywyd cleifion ar ddiwedd eu hoes.

Yn sgil cymryd awenau Hosbis St Anne ac ar ôl i'r lleianod werthu ysbyty preifat St Joseph i gonsortiw preifat, mae'r hosbis yn bodoli fel uned ar wahân o fewn Ysbyty St Joseph i bob pwrpas. Ar hyn o bryd, mae'r hosbis yn ystyried ei dyfodol yn y tymor hir o ganlyniad i hyn. Mae sawl opsiwn y gellid eu harchwilio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd.

Roedd yn glir bod partneriaeth newydd yn datblygu rhwng tîm blaenorol Hosbis St Anne, Gofal Hosbis Dewi Sant, a chyfarwyddwr clinigol Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae'r tîm adolygu'n gobeithio y bydd hyn yn parhau, gan ddwyn buddiannau i gleifion a staff at y dyfodol.

Pryderon

Cyfeirio at y canllawiau ar gyfer nodi pryderon. Dylid cyflwyno unrhyw risgiau uniongyrchol neu bryderon brys yn uniongyrchol i'r tîm craidd.

Dim

Pryderon Difrifol:

Dim

Mae'n rhaid cwblhau'r ffurflen hon ar adeg yr ymweliad, a rhaid i'r tîm adolygu llawn gytuno arno.

Nodi Pryderon – Problemau

Problemau	Lefel Pryder Risg Uniongyrchol, Pryder Difrifol, Pryder	Beth yw'r pryder penodol?